GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg University Health Board

Annwyl riant, gofalwr

Mae achosion o'r frech goch ar gynnydd yn y DU, felly mae'n bwysicach nag erioed sicrhau bod plant yn cael eu brechlynnau MMR (y frech goch, clwy'r pennau a rwbela). Mae'r frech goch yn heintus iawn a gall arwain at gymhlethdodau difrifol, ond mae dau ddos o'r brechlyn MMR yn darparu amddiffyniad diogel ac effeithiol.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cynnal brechiad 'dal i fyny' i blant dros wyliau'r ysgol rhwng 4 a 22 Awst.

Rydym yn bwriadu cysylltu â rhieni pob plentyn oedran ysgol a allai fod wedi methu un o'r brechlynnau canlynol a'u gwahodd i un o'r Canolfannau Brechu Cymunedol (CVCs) ar draws CTM:

- **Y Frech Goch, Clwy'r Pennau a Rwbela (MMR)**
  Fel arfer, mae'r brechiad hwn yn cael ei rhoi yn 12 mis oed a 3 blynedd a 4 mis oed yn eich meddygfa ac mae'n frechlyn dau ddos. Mae'r brechlyn MMR yn rhoi amddiffyniad rhag y Frech Goch, Clwy'r Pennau a Rwbela. Mae'r frech goch, clwy'r pennau a rwbela yn glefydau heintus iawn sy'n gallu lledaenu'n hawdd rhwng pobl nad ydyn nhw wedi'u brechu.

- **Papilomafirws Dynol (HPV)**
  Fel arfer, mae hyn yn cael ei rhoi ym mlwyddyn ysgol 8 (12/13 oed) gan y gwasanaeth nyrsio ysgol mewn ysgolion. Mae'r brechlyn hwn yn helpu i amddiffyn bechgyn a merched rhag canserau sy'n gysylltiedig â HPV.

- **Grwpiau meningococol A, C, W ac Y (MenACWY)**
  Fel arfer, mae hyn yn cael ei rhoi ym mlwyddyn ysgol 9 (yn 13/14 oed) gan y gwasanaeth nyrsio ysgol mewn ysgolion. Mae'r brechiad hwn yn darparu amddiffyniad rhag meningitis a septisemia sy'n cael eu hachosi gan bedwar grŵp o facteria meningococol – A, C, W ac Y.

- **Tetanws, Difftheria a Polio (Td/IVP)**

  Fel arfer, mae hyn yn cael ei rhoi ym mlwyddyn ysgol 9 (yn 13/14 oed) gan y gwasanaeth nyrsio ysgol mewn ysgolion. Mae'r brechiad hwn yn cwblhau'r cwrs 5 dos a fydd yn rhoi amddiffyniad gydol oes i'r rhan fwyaf o bobl yn erbyn tetanws, difftheria a pholio.

Rydym yn gofyn, os cewch wahoddiad i fynychu am frechiad, eich bod yn manteisio ar y cynnig gan fod brechlynnau'n bwysig iawn wrth atal plant rhag mynd yn sâl iawn a hyd yn oed achub bywydau.

Mae rhagor o wybodaeth am y brechiadau hyn a'r heintiau y maen nhw'n amddiffyn rhagddyn nhw ar gael yn https://icc.gig.cymru/ neu drwy'r cod QR isod:

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg University Health Board

Os na chewch wahoddiad ond eich bod yn credu bod eich plentyn wedi methu un o'r brechlynnau hyn, cysylltwch â ni ar 01685 726464 (Dydd Llun – Dydd Gwener 9am – 5pm).

Yr eiddoch yn gywir,

Philip Daniels

Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd